

**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU IACHACH
a gynhaliwyd yn ZOOM ddydd Dydd Iau, 24 Mehefin 2021**

PRESENNOL: Cynghorydd Mark Strong (Cadeirydd), Cynghorwyr Cynghorydd Lyndon Lloyd MBE (Is-Gadeirydd), Cynghorydd Gethin Davies, Cynghorydd Marc Davies, Cynghorydd Odwyn Davies, Cynghorydd Elaine Evans, Cynghorydd Keith Evans, Cynghorydd Hag Harris, Cynghorydd Alun Lloyd Jones, Cynghorydd Dan Potter, Cynghorydd John Roberts, Cynghorydd Lynford Thomas, Cynghorydd Ivor Williams a/ac Cynghorydd Bryan Davies

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr

SWYDDOGION YN BRESENNOL: Sian Howys (Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Gwasanaethau Arbenigol Porth Cynnal)

(10.00 - 11.45 am)

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorydd Paul Hinge am na fedrai ddod i'r Cyfarfod gan ei fod yn cyflawni dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswilt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Datgelodd y Cynghorydd Elaine Evans fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu o dan eitem 3 a gadawodd y cyfarfod.

**3 Adroddiad Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol
1.10.2020 - 21.12.2020**

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal Adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 3 2020/2021. Caiff adroddiadau chwarterol eu rhoi gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach fel rhan o'r ystyriaeth barhaus o'r pwnc i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau fel y Rhiant Corfforaethol. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu, ac roedd yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru.

Ar sail yr wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu, daw'r Swyddog Adolygu Annibynnol i farn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn / person ifanc o ran bodloni ei anghenion a gall argymhell newidiadau i'r cynllun gofal. Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen

cymorth ar y plentyn / person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol er mwyn derbyn cyngor cyfreithiol / cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn nad oedd angen cymryd y cam hwn ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn / person ifanc a gallai gyfeirio'r achos at CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw adolygiad yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu hystyried o fewn Cyfarfodydd Sicrhau Ansawdd Plant sy'n Derbyn Gofal Amlasiantaethol sy'n cwrdd bob chwarter; mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar berfformiad a materion eraill yn ymwneud â'r maes gwaith hwn. Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn cael eu cylchredeg a'u hadolygu gan Grŵp Rhianta Corfforaethol yr Awdurdod Lleol dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Plant a Diwylliant, a chynhelir y cyfarfodydd hyn bob chwarter.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd modd nodi unrhyw batrymau o ran yr hyn oedd yn digwydd yn y trefi o gymharu â'r ardaloedd gwledig. Hefyd, bu iddynt ofyn sut oedd ein proffil oedran ni yn cymharu ag Awdurdodau eraill. Wrth ymateb, dywedodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol nad oedd dim gwahaniaeth rhwng y trefi a'r ardaloedd gwledig ac mai dynameg y teulu oedd yn aml i gyfrif. Roedd y proffil oedran yng Ngheredigion yn unol â'r hyn oedd i'w ddisgwyl. Roedd canran y plant iau yn uwch oherwydd eu bregusrwydd a'u hanghenion uwch o ran gofal.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet sicrwydd i'r Pwyllgor fod esboniadau rhesymol paham nad oedd 8 o'r targedau wedi'u cyflawni yn ystod y chwarter hwn. Roedd yr esboniadau hyn yn cynnwys nifer y staff. Hefyd, roedd llai wedi cael eu gweld gan ddeintydd am fod y deintyddion ar gau am gyfnod hir oherwydd Covid-19.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod prinder gofalwyr maeth yn y Sir a dywedwyd y dylai unrhyw un sy'n addas gael ei annog i wneud cais i ddod yn ofalwr maeth.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi cynnwys yr adroddiad a lefelau'r gweithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol.

4 Diweddariad gan y Cadeirydd yn dilyn cyfarfod Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru

Bu cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn arsylwi ar gyfarfod o Gyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru ar 25 Mai 2021. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y prif faterion a drafodwyd yng Nghyfarfod Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru. Roedd rhan fwyaf y materion hyn yn gysylltiedig â Covid-19. Mynegwyd pryder dybryd ynghylch y ffaith bod 30,000 o bobl erbyn hyn ar restr aros Hywel Dda.

Roedd yr Aelodau wedi codi'r cwestiynau canlynol:

Cwestiwn:

Ceir pryderon nad yw cleifion yn medru gweld eu meddygon teulu. Mewn rhai achosion, dim ond asesiad dros y ffôn sydd ar gael iddynt. Sut mae gwella'r sefyllfa hon?

Ymateb:

Dr Sion James, Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol – Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Mae mwyafrif y meddygfeydd teulu yn dal i weithredu model brysbennu ar gyfer apwyntiadau Gofal Sylfaenol, sy'n golygu bod cleifion yn cyrchu gwasanaethau dros y ffôn neu trwy e-bost yn y lle cyntaf. Rhaid i feddygfeydd gydbwysu anawsterau cadw pellter cymdeithasol i gadw cleifion yn ddiogel â'r angen i sicrhau apwyntiadau wyneb yn wyneb lle bo angen. Felly bydd clinigwr yn cytuno â'r claf ar y canlyniad mwyaf priodol iddo yn dilyn brysbennu dros y ffôn. Gallai hwn fod yn ymgynghoriad o bell a fydd yn cyfeirio at wasanaeth arall, neu'n apwyntiad wyneb yn wyneb â chlinigydd. Os yw claf yn teimlo ei fod yn cael anhawster cael gafael ar wasanaethau yn ei bractis, yna byddem yn ei annog i gysylltu â thîm Pryderon Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 0300 0200 159.

Dylai cleifion ddisgwyl y bydd y modelau cyrchu gwasanaethau yn newid fel eu bod yn gwneud mwy o ddefnydd o ymgynghoriadau digidol ac o bell yn rhan o fodel y dyfodol; fodd bynnag, bydd y cleifion hynny y mae'n ofynnol iddynt gael apwyntiadau wyneb yn wyneb yn gallu cael apwyntiadau o'r fath.

Cwestiwn:

Mae nifer o bobl yn gofyn a fydd yn rhaid iddynt gael brechlyn bob blwyddyn i'w hamddiffyn nhw rhag amrywiolynnau newydd COVID-19. Mae rhai yn poeni wedi iddynt glywed bod pobl wedi marw ar ôl cael eu heintio gan amrywiolyn Delta. Sut ydych chi'n paratoi ar gyfer hyn?

Ymateb:

Jo McCarthy, Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus / Ymgynghorydd Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus, Tîm Iechyd Cyhoeddus Hywel Dda ar ran Ros Jervis, Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Rydym yn aros am arweiniad cenedlaethol ynghylch a fydd rhaglen frechu COVID-19 yn flynyddol, ac i bwy.

Ar hyn o bryd rydym yn paratoi ar gyfer nifer o senarios, gan gynnwys

- Brechiad blynyddol ar gyfer holl boblogaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a roddir gyda brechlynnau fflw (os cymeradwyir hyn).
- Brechiad blynyddol ar gyfer holl boblogaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a roddir o leiaf 7 diwrnod.
- Brechiad blynyddol i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl (grwpiau JCVI 1-9) ar wahân a gyda brechlynnau fflw.
- Gwahanol linellau amser posibl ar gyfer dosau atgyfnerthu, gan gynnwys y posibilrwydd o ddosau atgyfnerthu 6 mis-3 blynedd.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i baratoi'n dda ar gyfer llawer o senarios gan fod gennym 7 safle brechu torfol gweithredol a pherthynas dda â gofal sylfaenol ynghylch cyflenwi.

Mae'n anodd iawn i ni gynnig unrhyw beth mwy pendant ar hyn o bryd gan nad ydym yn gwybod beth fydd y gofyn yn genedlaethol.

Cwestiwn

Mae nifer o bobl wedi mynegi pryderon ynghylch yr anawsterau sy'n codi wrth gasglu presgripsiynau o'r fferyllfa pan fyddant eu hangen. Yn aml mae'n rhaid iddynt aros wythnos ar ôl i'r meddyg anfon y presgripsiwn i'r fferyllfa. Mae un fferyllfa wedi mynegi pryder bod Brexit wedi achosi anawsterau wrth geisio cael moddion o'r Undeb Ewropeaidd.

Beth sy'n achosi'r problemau ac a fydd pethau'n gwella?

Ymateb:

Jill Paterson, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Hirdymor a Jenny Pugh-Jones, Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dros y 3 i 4 blynedd diwethaf, bu heriau cynyddol i fferyllfeydd cymunedol sicrhau meddyginiaethau i gyflawni presgripsiwn i'n cleifion. Nid oes un rheswm dros hyn ond mae nifer o bethau sy'n effeithio ar y gadwyn gyflenwi. Mae fferyllfeydd yn gwneud pob ymdrech i ddod o hyd i feddyginiaethau gan ystod o gyflenwyr, gan dreulio oriau lawer yn mynd ar ôl cwmnïau i sicrhau cyflenwadau.

Mae'r farchnad gyflenwi ar gyfer meddyginiaethau yn hynod gymhleth ac fel marchnad fyd-eang mae digwyddiadau a all ddigwydd ledled y byd yn dylanwadu arni. Rwyf wedi ceisio crynhoi rhai o'r ffactorau:

a) Mae cwmnïau'n aml yn dewis cyfyngu faint o gyflenwad i fferyllfa ar sail ei ddefnydd misol ar gyfartaledd. Mae hyn yn achosi problemau lle gallai fferyllfa gael defnydd ychwanegol un mis, gan achosi'r angen i ddarparu 'tocyn dyledus' sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r claf alw yn ôl eto am weddill ei bresgripsiwn. Er bod hyn yn cael ei nodi'n gyson fel mater ar lefel genedlaethol y DU, mae cwmnïau'n rhydd i benderfynu faint o'u stoc sy'n cael ei gyfeirio at ba wlad.

b) Gwneir cynhyrchion generig a llawer o'r cynhyrchion brand mewn nifer o wledydd ond yn aml gan nifer fach o weithgynhyrchwyr. Pan fydd gwneuthurwr yn derbyn arolygiad ac yn ofynnol iddo wneud gwelliannau ar unwaith, gallai hyn arwain at nifer o gynhyrchion ddim ar gael am sawl mis mwyach. Mae hyn yn digwydd yn gymharol aml ac yn achosi problemau cyflenwi sylweddol ledled y byd. Gall un uned wneud yr un cynhyrchion ar gyfer ystod o gwmnïau

c) Mae'n anodd darganfod a oes unrhyw un o'r prinder a'r oedi cyfredol yn gysylltiedig â Brexit gan nad yw'r rhain yn faterion newydd. Nid wyf yn ymwybodol bod hyn wedi gwaethygu dros yr ychydig fisoedd diwethaf, er yn ddi-os bydd rhai cyffuriau sy'n cael eu heffeithio gan newidiadau i reoliadau mewnforio ond yn gyffredinol rwy'n deall bod y llwybrau hyn yn glir oherwydd natur dyngedfennol meddyginiaethau.

Ni allaf roi unrhyw arwydd o pryd y bydd hyn yn gwella, ond gallaf roi sicrwydd bod fferyllfeydd yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gynnal cyflenwad i gleifion. Yn aml, byddant yn cysylltu â meddygon teulu i awgrymu / cytuno ar ddewis arall tebyg i'r feddyginiaeth ar y presgripsiwn. Maent yn aml yn 'benthyg' oddi wrth ei gilydd i ateb gofynion, gan gynnwys ar gyfer ceisiadau anarferol neu frys gan fferyllfeydd yr ysbyty hefyd.

Dywedodd y Swyddog Craffu fod y cylch gorchwyl yn nodi y dylai hyd at dri Aelod Craffu o bob cyngor, gan gynnwys, er enghraifft, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu / y cynullydd fod yn rhan o'r Gweithgor Craffu. Serch hynny, roedd y trefniant hwn yn un hyblyg.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai'r aelodau canlynol yn cynrychioli Ceredigion:

- Y Cadeirydd: Y Cynghorydd Bryan Davies
- Yr Is-gadeirydd: Y Cynghorydd Lyndon Lloyd
- Y Cadeirydd Blaenorol: Y Cynghorydd Mark Strong
- Cynrychiolydd o'r Grŵp Annibynnol: Y Cynghorydd Keith Evans

5 I gadarnhau Cofnodion 8.3.2021 a 18.3.2021 ac ystyried unrhyw fater sy'n codi ohonynt

CYTUNWYD i gadarnhau Cofnodion y Cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2021 a 18 Mawrth 2021 yn rhai cywir.

6 I ystyried Blaenraglen Waith y Pwyllgor 2021 - 2022

CYTUNWYD i nodi'r flaenraglen waith a gyflwynwyd yn amodol ar y canlynol:-

- Bod yr adroddiad am dipio anghyfreithlon ar 22 Medi yn cynnwys gwybodaeth am dipio gwastraff i lawr draeniau yn anghyfreithlon
- Bod yr adroddiad am Reoli Plâu yn cynnwys gwybodaeth am y trefniadau staffio
- Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad am Ganolfan Hamdden Llanbedr Pont Steffan yn y cyfarfod ym mis Medi
- Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad am y ddarpariaeth o ran dementia yn y cyfarfod ym mis Hydref.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 22 Medi 2021

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____